# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 26ain Mawrth 2015.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, Paul Hughes, D.G.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, Mrs Gwen Lloyd, Mrs Ann Williams a Mrs Gwenfair Davies.

Croesawyd Mr Alistair Knox, Rheolwr Strategaeth yr adran Leol ac Amgylchedd o'r Cyngor Sir i drafod y posibilrwydd o drosglwyddo gofalaeth y cyfleusterau cyhoeddus yng Nghemaes i'r Cyngor Cymuned. Gadawodd sawl opsiwn i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Ebrill.

**Ymddiheuriadau.** Mri:- Siôn Ifans, H.D.Jones, J.P.Jones, H.M.Williams a'r Cyng. G.P.Fychan.
Cyfeiriodd y cadeirydd at Mrs Vida Lewis, mam Derryck, sydd wedi dathlu 100 oed a hefyd Dafydd a Lowri, Dolau Brics ar enedigaeth Owain Iorwerth.

**85. Cofnodion cyfarfod 26ain Chwefror 2015.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**86. Materion yn codi o'r cofnodion.**
<u>Mis Medi</u>
42.7 Derbyniwyd llythyr gan berchennog Plas Wrin yn cadarnhau bod y coed ar y tir wedi cael eu harchwilio. Mae peth gwaith i'w wneud er mwyn diogelu wal y fynwent. Anfon am gopi o adroddiad yr archwiliwr.
<u>Mis Rhagfyr</u>.
44.19.17.1 Derbyniwyd e-bost oddi wrth Glyn Davies mewn ymateb i'n cais i geisio cadw safle Potters ar agor ym Machynlleth.
<u>Mis Ionawr</u>.
76.1 Un amcan bris yn unig dderbyniwyd i ofalu am y ddwy fynwent ar gyfer y tymor sydd i ddod. Derbyniwyd pris Mr Glenn Ward, Machynlleth am £1260.
<u>Mis Chwefror</u>.
80.4 ac 80.5 Derbyniwyd llythyron o ddiolch am ail ymaelodi efo Un Llais Cymru ac oddi wrth Gloversure Ltd am sefydlu'r wefan.
83.3 Llyfryn oddi wrth PAVO i gadarnhau ein bod wedi ymaelodi ac ar eu rhestr bostio.
84.1 Bydd CAMAD yn dosbarthu 'pryd ar glyd' yn ardaloedd Machynlleth, Forge a Phenegoes o yfory ymlaen. Nid oes dim wedi ei drefnu hyd yn hyn ar gyfer Susan Hughes, a chytunwyd i anfon llythyr o ddiolch a thusw o flodau Interflora.
84.6 Wrth wahodd Mr Adrian Jervis i gyfarfod mis Ebrill, rhoddwyd rhestr o'r gwaith sydd, ym marn y cynghorwyr, angen sylw ers tro byd. Mae swyddfa'r sir wedi cysylltu ynglŷn â'r gwaith ger Tynrhos, y coed sy'n gordyfu ger Brookville, Cwmlline, a'r sbwriel ar ochr y ffyrdd. Mae'r gwahoddiad i Mr Jervis yn parhau.

**87. Cynllunio.**
P/2015/0148. Codi Melin Wynt ym Mhenglog, Aberhosan. Cefnogi.
P/2015/0254. Newidiadau i gais sydd eisoes wedi ei gymeradwyo yn 2012 yn Esgair Lwyd, Ceinws. Cefnogi.

**88. Eitemau i'w talu.**
88.1 Cyflog a chostau'r clerc am y tri mis diwethaf. Cyflog £750 a chostau £68.74.

**89. Ceisiadau am arian.**
Trosglwyddwyd dwy gais i Gronfa'r Melinau Gwynt.

**90. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
90.1 Mr Bill Owen. Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Iechyd ym Machynlleth, datgelwyd na fydd Ambiwlans ar gael ym Machynlleth. O'r Drenewydd neu Llanidloes fydd y gwasanaeth o hyn ymlaen.

**91. Gohebiaeth.**
91.1 Wedi derbyn ad-daliad TAW o £30 am y flwyddyn yn diwedd Mis Mawrth.
91.2 Y Diweddaraf am Fferm Wynt Mynydd Lluest y Graig.
91.3 Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru i'w gael ar y we.
<http://gov.wales/irpwsub/home/publication/2015-16/annual-report-2015-16/?lang=cy>
91.4 Ni fydd newid i'r drefn arferol o gasglu sbwriel yn ystod tymor y Pasg.
91.5 Cynhelir Rali Ceir Gogledd Cymru dydd Sadwrn 28$^{ain}$ Mawrth.
91.6 Cyfle unwaith yn rhagor i fabwysiadu ciosg ffôn am £1. Dim diddordeb ar hyn o bryd.
91,7 Newid yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2014.

**92. Unrhyw fater arall.**
92.1 Cytunwyd fod y clerc yn cysylltu efo Arnold Shuter i archwilio'r llyfrau am y flwyddyn ariannol yn diwedd 31$^{ain}$ Mawrth. Os na fydd Mr Shuter ar gael, yna gofyn i Garry, Fachuchaf.
92.2 Mae'r coed ger Brookville wedi eu clirio, ond mae angen ychydig mwy o waith eto.
92.3 Dangoswyd anfodlonrwydd fod Banc HSBC yn cau ym Machynlleth.
92.4 Twll yn y ffordd ger Penybanc, Cwmlline
92.5 Mae caead twll archwilio angen ei ail osod ger y lloches fysiau nepell o Tynrhos, Glantwymyn.
92.6 Mae cylfat yn stad Rhosawel, Cwmllinau angen sylw ers tro.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30$^{ain}$ Ebrill 2015.**

Mr Alistair Knox from Powys County Council was present at the March meeting to discuss the possibility of transferring the responsibility of looking after the Cemaes public conveniences to the Community Council. He presented many options which will be discussed further at the April meeting.
The estimate from Mr Ward, Machynlleth to maintain the cemeteries of Llanwrin and Darowen for 2015 was accepted.
Two applications for financial support from the Cemaes Windmill Trust Fund were supported.
The Glantwymyn School £500 and Clwb Te Twymyn £300.
The clerk was hopeful that the monthly minutes would be available on line from the beginning of April.
Concern was expressed that the HSBC Bank were closing the Machynlleth branch. Another example of how the recession is hitting rural Wales.